


# Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa: Unigolion bregus a gedwir yn y ddalfa

23 Ebrill 2025

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Ysgrifennwyd gan: Tom Walters

# Cynnwys


Trosolwg, Cefndir, Pwrpas a Methodoleg ..... 2
Crynodeb o'r canfyddiadau ..... 5
Sylwadau'r panel ..... 7
Atodiad- Canfyddiadau'r Adolygiad o Gofnodion y Ddalfa ..... 18
Demograffeg ..... 18
Dalfeydd ..... 20
Amser cyrraedd y ddalfa ..... 20
Darpariaethau yn y ddalfa ..... 22
Unigolion benywaidd a gedwir yn y ddalfa ..... 23
Hylendid ..... 24
Sgôr rhybudd cynnar yn y ddalfa ..... 25
Hawliau a hawlogaethau ..... 26
Lefel arsylwi ..... 29
Gwasanaethau cynorthwyol ..... 31
Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ..... 32
Dillad risg arbennig/dillad gwrth-rwygo ..... 33
Noeth-chwiliad ..... 33

**Iechyd meddwl, oedolion priodol a bregusrwydd eraill** ........ 35
**Plant yn y ddalfa** ........ 36
**Coch Melyn Gwyrdd** ........ 36

# Trosolwg, Cefndir, Pwrpas a Methodoleg

Mae tarddiad, pwrpas a rhesymeg Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa i'w gweld ar ein gwefan ac yn benodol o dan y cylch gorchwyl drwy'r ddolen hon: Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Bydd Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa yn edrych ar feysydd o'r flwyddyn flaenorol ar sail gylchol gyda'r bwriad o gymharu ac asesu a yw'r dysgu a nodwyd wedi'i weithredu o fewn gwasanaethau'r ddalfa.

Y llynedd, canolbwyntiodd Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa ar ddillad gwrth-niwed a elwir hefyd yn ddillad gwrth-rwygo a/neu ddillad risg arbennig. Wrth baratoi i gael cofnodion dalfa ar gyfer Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa hwn, nid oedd unrhyw ddillad gwrth-niwed wedi'u darparu i unrhyw unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn Nyfed-Powys; felly, gwnaed y penderfyniad i ganolbwyntio ar unigolion bregus a gedwir yn y ddalfa.

Gall fod yn anodd diffinio bregusrwydd yn seiliedig ar wahanol ddeddfwriaeth a chanllawiau gan gynnwys y canlynol:

- Fframwaith Asesu Bregusrwydd y Coleg
- Asesiad Galluedd (Deddf Galluedd Meddwl 2005)
- Angen am asesiad (Deddf Iechyd Meddwl 1983)
- Addasiadau rhesymol (Deddf Cydraddoldeb 2010)

- Ffitrwydd i gael cyfweliad (Cod C PACE Atodiad G)

Mae gan y rhwydwaith oedolion priodol gyfres o fideos sy'n canolbwyntio ar y cysyniad o 'berson bregus' yn seiliedig ar Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE) 1984.

Mae Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol yn diffinio bregusrwydd o dan God C 1.13 fel:

*Mae 'bregus' yn berthnasol i unrhyw berson sydd, oherwydd cyflwr iechyd meddwl neu anhwylder meddwl (gweler nodiadau 1G ac 1GB):*

- *sydd efallai'n cael anhawster deall neu gyfathrebu'n effeithiol oblygiadau llawn unrhyw weithdrefnau a phrosesau a sut maen nhw'n effeithio arnyn nhw*
- *(ii) nad yw'n ymddangos eu bod yn deall arwyddocâd yr hyn a ddywedir wrthynt, y cwestiynau a ofynnir iddynt neu eu hatebion:*
- *(iii) ymddengys eu bod yn arbennig o dueddol i:*
    - *fod yn ddryslyd ac yn aneglur ynghylch eu sefyllfa;*
    - *darparu gwybodaeth annibynadwy, camarweiniol neu droseddol heb wybod neu heb ddymuno gwneud hynny;*
    - *derbyn neu weithredu ar awgrymiadau gan eraill heb wybod hynny'n ymwybodol neu heb fod eisiau gwneud hynny; neu*
    - *cytuno'n rhwydd i awgrymiadau neu gynigion heb unrhyw brotest na chwestiwn.*

Mae oedolyn priodol yno i gefnogi pobl fregus rhag rhoi tystiolaeth annibynadwy. Mae tystiolaeth annibynadwy yn arwain at gamweinyddiadau cyfiawnder ac erlyniadau aflwyddiannus.

Rhoddwyd cwestiynau ychwanegol i'r panel ar gyfer y panel craffu hwn, gan gynnwys:

- Beth oedd yr angen am yr arestio?
- Diffiniwch yr hyn a nodwyd gan staff y ddalfa wrth nodi bod y unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn fregus.
- Beth oedd y dull gwarediad/datrysiad?

Dyma enghraifft o’r set o gwestiynau y gofynnwyd i’r panel eu hystyried:

# Crynodeb o’r canfyddiadau

Isod mae crynodeb o rai o ganfyddiadau’r panel:

## Pwyntiau cadarnhaol:

**Trin unigolion bregus a gedwir yn y ddalfa**
Rhwng popeth, asesodd y panel fod 53% o’r cofnodion a adolygwyd yn dangos fod unigolion a gedwir yn y ddalfa wedi cael eu trin yn dda gan staff y ddalfa, a nodwyd pa mor dda y cawsant eu trin er gwaethaf anghenion cymhleth rhai o’r unigolion a gedwir yn y ddalfa.

**Hawliau a hawlogaethau**
Rhoddwyd hawliau i bob unigolion a gedwir yn y ddalfa naill ai yn ystod y cyfnod cofnodi i’r ddalfa neu yn ddiweddarach yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa.

**Lefel arsylwi**
Cofnododd y Panel gadarnhad o 95% bod risgiau unigolion a gedwir yn y ddalfa wedi’u hystyried gyda dim ond un cofnod lle na allai aelod y panel ddod o hyd i’r manylion. (*Gweler sylwadau’r heddlu am fanylion pellach y cofnod a aseswyd yn nodi bod risgiau heb eu hystyried).*

**Gwasanaethau cynorthwyol**

O ystyried mai problemau iechyd meddwl oedd 31% o gyfran bregusrwydd yr unigolion a gedwir yn y ddalfa a nodwyd, cynigiwyd gwasanaethau cymorth i 53% o’r unigolion a gedwir yn y ddalfa o’i gymharu â 37% na chynigiwyd gwasanaethau cymorth iddynt a 10% nad oedd hyn yn berthnasol iddynt.

**Noeth-chwiliad**
O’r 19 cofnod, dim ond chwech a gafodd noeth-chwiliad; a nododd y panel fod rheswm da dros gynnal pump o’r rheini. (*Gweler sylwadau’r heddlu am fanylion pellach ar y cofnod a ystyriwyd yn amhriodol).*

**Siwtiau gwrth-niwed/dillad risg arbennig**
O’r 19 o gofnodion y ddalfa a adolygwyd, ni ddarparwyd dillad risg arbennig i unrhyw unigolyn yn y ddalfa ac ni wnaeth yr heddlu dynnu dillad drwy rym.

## Meysydd i’w gwella:

**Bylchau mewn gwybodaeth cofnodi**

Roedd bylchau lle dylid cofnodi’r rhesymeg dros oedi neu resymeg gofyn am bresenoldeb oedolyn priodol neu gynrychiolwyr cyfreithiol yn gyffredin mewn llawer o’r cofnodion. Hefyd, prin oedd y manylion, os o gwbl, mewn perthynas â chofnodi credoau crefyddol yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa, a gynigiwyd eitemau crefyddol i’r unigolyn yn y ddalfa ac a gyfarwyddwyd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa ynghylch cloch y gell neu fod yr ardal doiled wedi’i phicselu.

**Oedolyn priodol**

Yr amser cyfartalog i swyddog y ddalfa gysylltu ag oedolyn priodol oedd 7 awr a 30 munud, a’r amser cyfartalog i’r unigolyn a gedwir yn y ddalfa gysylltu ag oedolyn priodol am y tro cyntaf oedd 8 awr a 10 munud.

**Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol**
O’r 14 unigolyn a gedwir yn y ddalfa a oedd angen gweld gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, profodd bump ohonynt oedi. (*Gweler sylwadau’r heddlu am fwy o fanylion).*

**Unigolion benywaidd a gedwir yn y ddalfa**
Nododd y panel fod y cofnod yn aneglur ar ddau achlysur a oedd swyddog benywaidd ar gael; ac mewn cofnod arall, nododd aelod o’r panel fod y pynciau ynghylch beichiogrwydd a hylendid wedi’u cofnodi fel ‘ddim yn berthnasol’. O fewn pum cofnod, ni allai’r panel benderfynu a oedd eitemau hylendid (cawodydd neu gyfleusterau golchi dwylo) wedi’u cynnig neu fod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi gofyn amdanynt.

# Sylwadau'r panel

Cynhyrchwyd sylwadau'r heddlu gan Arolygydd Gwasanaethau'r Ddalfa ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys.

| Thema | Arsylwadau | Ymateb yr heddlu |
|---|---|---|
| **Bregusrwydd** | Roedd tri chofnod lle na allai'r panel benderfynu pam yr ystyriwyd bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn fregus. A allech chi roi rhywfaint o eglurder mewn perthynas â'r rhain?<br><br>Mewn un achos, dangosodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa nad oedd yn fregus ar y sail ei fod yn gallu darllen ac ysgrifennu a dangosodd fod ganddo'r gallu yn seiliedig ar ei alwedigaeth. A allwch chi roi rhywfaint o eglurhad pam yr ystyriwyd bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa hwn yn fregus fel rhan o'r hapsamplu hwn? | *Y rhesymau pam y nodwyd bod y tri chofnod yn fregus yw:*<br>- *Wedi cael diagnosis o iselder, gorbryder, ADHD, ac awtistiaeth.*<br>- *Wedi cael diagnosis o iselder, ADHD ac alcoholig yn gwella*<br>- *Wedi cael diagnosis o ffibromyalgia ac yn dioddef o feddwl pŵl*<br><br>*O adolygu'r cofnod hwn, nid oedd angen oedolyn priodol ar yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa, ond fe'i rhestrwyd fel un bregus gan ei fod wedi cael diagnosis o bryder, iselder ac ADHD.* |
| **Oedolyn priodol** | 1. O ystyried bod y ffocws ar oedolion bregus, a ydych chi'n ystyried bod yr amser cyfartalog i bobl yn y ddalfa gysylltu ag oedolyn priodol yn gymesur, a hwythau wedi cymryd 7 awr a 30 munud, a hyd at 19 awr?<br><br>2. Nododd y panel na ddarparwyd oedolyn priodol ar un achlysur | 1. *Na, nid wyf yn ystyried hyn yn gymesur. Mae hwn yn fater y mae Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa hwn wedi'i amlygu. Wrth ystyried plant sydd yn y ddalfa, cysylltir ag oedolion priodol ar unwaith, ond nid yw'n ymddangos bod yr un lefel o frys o ran oedolion a gedwir yn y ddalfa pan fydd angen oedolyn priodol arnynt. Mae hwn yn fater sy'n cael ei* |

| | | |
|---|---|---|
| | oherwydd ei bod yn ymddangos bod gan yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa y gallu; fodd bynnag, roedd angen oedolyn priodol arno ar achlysur blaenorol yn y ddalfa. A allwch chi nodi a yw hyn yn briodol?<br><br>3. Nid oedd unrhyw dystiolaeth yn yr asesiad risg na'r fanyleb bod yr unigolyn yn cael ei asesu fel unigolyn bregus neu ag anghenion iechyd meddwl. Ni ddarparwyd unrhyw esboniad chwaith pam y cysylltwyd ag oedolyn priodol 11 awr yn ddiweddarach i fynd gyda'r unigolyn i'r cyfweliad. A allwch chi egluro hyn?<br>4.<br>Mae cofnod arall yn dangos na chysylltwyd â'r oedolyn priodol 7 awr 25 munud ar ôl awdurdodi cadw unigolyn yn y ddalfa. A allwch chi gynghori a yw hyn yn gywir; ac os felly, a fyddai hyn yn cael ei ystyried yn gymesur?<br><br>5. Roedd dau gofnod arall lle'r oedd gwybodaeth ar goll yn y cofnod am yr oedi cyn i'r oedolyn priodol gyrraedd. A allwch chi roi gwybod pam y | *archwilio ymhellach ar hyn o bryd a bydd angen gwneud gwelliannau.*<br><br>2. *Ar ôl adolygu'r cofnod hwn, mae swyddog y ddalfa yn tynnu sylw yn y cynllun gofal bod gan yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa y gallu i bob golwg ond bod oedolyn priodol yn bresennol gyda'r unigolyn ar ymweliad blaenorol â'r ddalfa. Oherwydd hyn, gofynnwyd i'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol gynnal cyfweliad addasrwydd i weld a oedd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn gymwys i gael cyfweliad ac ym marn broffesiynol y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol nid oedd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa angen oedolyn priodol. Byddwn i'n awgrymu bod hyn yn gymesur o dan yr amgylchiadau gan y gall lefel gallu person, neu ddiffyg gallu, newid yn dibynnu ar y driniaeth a dderbynnir ac ati.*<br><br>3. *Wrth adolygu'r cofnod dalfa hwn, amlygodd yr asesiad risg cychwynnol a gwblhawyd gyda'r* |

| | | |
|---|---|---|
| | digwyddodd yr oedi ac a allai staff y ddalfa wneud unrhyw beth i leihau'r oedi? | *unigolyn a gedwir yn y ddalfa ei fod yn dioddef o ffibromyalgia a scoliosis ysgafn yn unig. Fodd bynnag, datgelodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa symptomau tebyg i salwch Rhyfel y Gwlff yn ddiweddarach a olygai ei fod yn dioddef o symptomau meddwl pŵl. Oherwydd hyn, gwnaed y penderfyniad i ddarparu oedolyn priodol ar gyfer yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa i'w gefnogi yn ystod y cyfweliad.*<br><br>4. *Cafodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa ei arestio yn oriau mân y bore, roedd angen triniaeth ysbyty arno, ac ni chyrhaeddodd y ddalfa tan 3.12 am. Oherwydd hyn, byddai'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi bod angen cyfnod o orffwys ar ôl cael ei weld gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol i sicrhau ei fod yn addas i'w gadw yn y ddalfa. Yna cysylltwyd ag oedolyn priodol ar ôl i'r cyfnod o orffwys ddod i ben a chaniataodd hyn i'r prosesu a'r cyfweliad ddigwydd. Byddwn i'n awgrymu bod hyn yn briodol.* |

| | | |
|---|---|---|
| | | 5. *Nodwyd yn y cofnod cyntaf fod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi cyrraedd yn ystod oriau mân y bore ac roedd angen cyfnod o orffwys arno. Fodd bynnag, byddwn i'n awgrymu y dylid bod wedi cysylltu â'r oedolyn priodol yn gynharach yn yr ail gofnod. Ymddengys bod yr oedi wedi digwydd oherwydd bod y swyddogion yn cynnal ymholiadau heb eu datrys a gellid bod wedi cysylltu ag oedolyn priodol i ddarparu cefnogaeth yn ystod y cyfnod hwnnw. Roedd gan yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa nifer o ffactorau bregusrwydd, ac er bod lefel y gofal a ddarparwyd gan staff y ddalfa yn dda, byddai oedolyn priodol yn gynharach wedi bod o fudd.* |
| **Lefel arsylwi** | 1. Ni allai un aelod o'r panel ddod o hyd i fanylion mewn perthynas â'r lefel arsylwi mewn cofnod dalfa.<br><br>2. Nododd aelod arall o'r panel nad oedd ei gofnod, i bob golwg, yn glynu wrth lefel arsylwi 2 a osodwyd ar gyfer yr unigolion a gedwir yn y ddalfa. | 1. *Mae'r lefel arsylwi bob amser yn cael ei gofnodi ar y cynllun gofal, o dan y gymeradwyaeth gan swyddog y ddalfa. Y lefel arsylwi oedd arsylwadau lefel 1 sef bob 30 munud.*<br><br>2. *Roedd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa ar wiriadau deffro lefel 2 o 10.39pm hyd 1.16am pan* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *newidiwyd wedyn i lefel 1 arsylwadau bob 30 munud. Cwblhaodd staff y ddalfa wyth gwiriad i gyd yn ystod y cyfnod hwnnw, ac roedd pob gwiriad yn cydymffurfio â lefel arsylwi 2, sef deffro'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa a siarad ag ef o fewn yr amser gwirio 30 munud. Dydw i ddim yn siŵr a wnaeth aelod y panel nodi'r newid yn lefelau arsylwi i lefel 1, sy'n golygu nad oedd angen ei ddeffro mwyach, ac efallai bod hyn wedi achosi dryswch.* |
| **Noeth-chwiliad** | 1. Nododd un aelod o'r panel nad oedd rhesymeg dda dros gynnal noeth-chwiliad. Y rhesymeg a ddarparwyd oedd bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi cael ei arestio ar amheuaeth o gyflenwi cyffuriau. Roedd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa eisoes wedi bod i'r ysbyty ac wedi cael sgan rhag ofn iddo lyncu unrhyw eitem, ac roedd symudiadau'r perfedd yn cael eu monitro drwy'r toiled gwydr; felly, nid yw'n glir pam roedd angen noeth-chwiliad. A allech chi roi esboniad?<br><br>2. Nododd aelod o'r panel fod diffyg gwybodaeth ar y cofnod i | *1. Wrth adolygu'r cofnod hwn, rwy'n cytuno bod y rhesymeg yn cynnwys manylion cyfyngedig iawn a bydd adborth yn cael ei ddarparu i'r swyddog dan sylw. Efallai bod hyn eisoes wedi'i gwblhau gan fod pob noeth-chwiliad yn cael ei archwilio yn ystod y broses archwilio fisol. Byddai'r noeth-chwiliad wedi bod yn angenrheidiol ac yn gymesur o hyd gan mai dim ond gwirio am unrhyw eitemau a fyddai eisoes wedi'u bwyta neu eu "pacio" yn fewnol gan yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa y mae'r sgan yn yr ysbyty ac ni fyddai'n ystyried unrhyw eitemau a allai fod* |

| | | |
|---|---|---|
| | bennu'r rhesymeg dros noeth-chwiliad, pam y nodwyd fod angen oedolyn priodol ond na chysylltwyd ag ef tan yn llawer diweddarach, nid oedd cofnod o gysylltu â chyfreithiwr. Ymddengys hefyd bod cofnod yn ymwneud ag achos arall o bosibl, sy'n cyfeirio at Hysbysiad Amddiffyn Rhag Trais Domestig ar gyfer trosedd o ladrad heb unrhyw gysylltiad clir yn nodi bod y drosedd yn ymwneud â thrais domestig. A fyddech chi'n gallu rhoi rhywfaint o eglurder neu gyd-destun i hyn? | *wedi'u cuddio o fewn dillad isaf ac ati.*<br><br>2. *Byddai'r cofnod hwn wedi bod yn gymhleth i aelod y panel ei adolygu gan fod gwybodaeth o wahanol ffynonellau. Rwy'n cytuno â'r sylw gan aelod y panel bod y rhesymeg dros y noeth-chwiliad yn brin o fanylion. Yr unig resymeg y gallaf ddod o hyd iddi dros y noeth-chwiliad yw un llinell yn y cynllun gofal cyntaf sy'n nodi y bydd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn cael ei noeth-chwilio i sicrhau ei ddiogelwch tra yn y ddalfa. Nid yw hyn yn ddigonol i ddangos tystiolaeth o'r angen i gwblhau noeth-chwiliad a rhoddir adborth i'r swyddog dan sylw, os nad yw hyn eisoes wedi'i wneud. Datgelodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa broblemau iechyd meddwl parhaus gan gynnwys anhwylder deubegynol, cafodd ddiagnosis o ADHD ac awtistiaeth, ac roedd yn ddibynnol ar alcohol a chyffuriau. Oherwydd hyn, barnwyd bod angen oedolyn priodol. Y rheswm pam y bu oedi cyn cysylltu ag oedolyn priodol oedd bod yr unigolyn a* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *gedwir yn y ddalfa dan ddylanwad alcohol/cyffuriau ac nad oedd yn addas i gael ei brosesu na'i gyfweld tan sawl awr ar ôl cyrraedd. Gallaf gadarnhau y cysylltwyd â chyfreithiwr am 11.53pm, sef wyth awr ar ôl i'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa gyrraedd y ddalfa, ond unwaith eto achoswyd yr oedi hwn gan fod y unigolyn a gedwir yn y ddalfa dan ddylanwad alcohol/cyffuriau ac nad oedd yn addas i gael ei drin nes bod ei fod yn sobr. O ran y sylw ynghylch Hysbysiad Diogelu Rhag Trais Domestig, mae'n ymddangos bod hwn yn sylw a osodwyd ar y cofnod dalfa anghywir. Nid oedd y drosedd dan ymchwiliad yn gysylltiedig â'r cartref a gosodwyd yr Hysbysiad Diogelu Rhag Trais Domestig ar y cofnod dalfa hwn yn ystod y weithdrefn cofnodi i'r ddalfa.* |
| **Unigolion benywaidd a gedwir yn y ddalfa** | 1. Ni allai aelod o'r panel ddod o hyd i fanylion yn cyfeirio at swyddog benywaidd a neilltuwyd yn cyflwyno ei hun ac ar gael ar gyfer cwestiynau yn ymwneud â beichiogrwydd neu gynhyrchion mislif, roedd yr ymateb ar y cofnod yn nodi | *1. Mae dyraniad swyddogion benywaidd wedi'i nodi ar waelod y cynllun gofal. Ni neilltuwyd unrhyw swyddog benywaidd ar y cynllun gofal cyntaf a gwblhawyd, ond neilltuwyd swyddogion benywaidd ar gynlluniau gofal* |

| | | |
|---|---|---|
| | "ddim yn berthnasol". A allech chi wirio hyn a rhoi rhywfaint o eglurder i'r cofnod hwn?<br><br>2. Nododd aelod arall o'r panel hefyd nad oedd y cofnod yr oeddent yn ei adolygu yn glir a oedd swyddog benywaidd wedi bod ar gael ai peidio. A ellir gwirio a dilysu hyn? | *dilynol a'u newid yn ôl newidiadau sifftiau. Roedd y sylw gan aelod y panel ynghylch beichiogrwydd a chynhyrchion mislif yn gywir gan fod swyddog y ddalfa wedi dewis "ddim yn berthnasol". Mae hyn yn amlwg yn anghywir a dylid bod wedi ateb naill ai "DO" neu "NADDO".*<br>*2. Ni neilltuwyd swyddog benywaidd ar y cynllun gofal cyntaf, ond cafodd ei ddiweddaru'n ddiweddarach i ddangos bod swyddog benywaidd wedi'i neilltuo yn unol â hynny. Efallai bod hyn oherwydd ansicrwydd ynghylch pa swyddog fyddai'n cael ei dyrannu.* |
| **Bylchau mewn cofnodi gwybodaeth o fewn cofnod y ddalfa** | 1. Mewn 95% o'r cofnodion a adolygwyd nid oedd modd canfod a oedd unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi cael cyfarwyddyd am bicseliad y toiled, ac mewn 89% ni chanfuwyd unrhyw fanylion am unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn cael cyfarwyddyd i ddefnyddio <u>cloch y gell</u> ac mewn 84% nid oedd cofnod eu bod wedi cael gwybodaeth am ofynion crefyddol. | *1. Rwy'n ymwybodol bod pob unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn cael gwybod am bicseliad toiled a sut i defnyddio cloch y gell. Cwblheir hyn pan gaiff yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa ei hebrwng i'r gell ac mae picseliad y toiled wedi'i ysgrifennu ar wal y gell uwchben y toiled gan ddefnyddio stensil. Nid oes templed ar Niche sy'n cwmpasu'r broses hon ac felly gallai hyn egluro'r tan-gofnodi sy'n digwydd.* |

| | | |
|---|---|---|
| | 2. O ran <u>crefydd</u>, o'r 19 cofnod, darganfu'r panel nad yw hyn yn cael ei gofnodi neu na ellid dod o hyd i'r manylion yn y cofnod.<br><br>3. Mae'r wybodaeth a gofnodwyd ynghylch cynrychiolwyr cyfreithiol yn anghyson. Nododd y panel ar bum achlysur nad oedd cofnod yn manylu ar gyswllt y cyfreithiwr, y math o gyswllt na'r amser cyrraedd. | *2. Nid yw crefydd bellach wedi'i chynnwys yn asesiad risg y ddalfa ac mae'r manylyn hwn bellach wedi'i ddogfennu yn adran "Enw a gwybodaeth am yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa" ar gofnod y ddalfa. Nid yw hwn yn faes gorfodol sy'n gofyn am ei gwblhau ar Niche ac mae hyn yn rhywbeth sy'n cael ei asesu ar hyn o bryd gyda'r heddluoedd eraill o fewn ein cydweithrediad.*<br><br>*3. Mae'r holl fanylion ynghylch y cyfreithiwr, y cwmni sy'n mynychu, yr amser y cawsant eu hysbysu, ac ati, i gyd wedi'u cynnwys yn adran "Hawliau a chyfraith" y cofnod dalfa. Nid oedd amser cyrraedd wedi'i gynnwys yn yr adran hon i ddechrau; ond, yn dilyn yr uwchraddiad Niche diweddaraf, mae amser cyrraedd cyfreithiwr bellach wedi'i gynnwys yn yr adran hon a dylai hyn wella'r ffordd y caiff yr elfen hon ei chofnodi. Gallaf gadarnhau bod manylion cyfreithiwr wedi'u dogfennu ym mhob un o'r pum cofnod dalfa.* |


| | | |
|---|---|---|
| **Ymholiad ynghylch yr angen i arestio** | Nodwyd dull gwaredu 'dim gweithredu pellach' mewn un cofnod a'r unig gyfiawnhad dros arestio oedd angenrheidrwydd "*cynnal ymchwiliad prydlon ac effeithiol i'r drosedd."* A ellir adolygu'r cofnod hwn i benderfynu a ddylid bod wedi cadw'r oedolyn bregus hwn yn y ddalfa? | *Rwyf wedi adolygu'r angenrheidrwydd i arestio ar gyfer y cofnod dalfa hwn ac yn cytuno bod yr arestio yn angenrheidiol ac yn gymesur. Roedd y unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi cael ei arestio ar amheuaeth o ymosodiad cyffredin sy'n gysylltiedig â'r cartref ac ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol. Yr unig angenrheidrwydd ar gyfer arestio a restrir, fel y mae aelod y panel yn ei bwysleisio, oedd "cynnal ymchwiliad prydlon ac effeithiol". Fodd bynnag, gellid bod wedi cofnodi anghenion ychwanegol o ystyried yr amgylchiadau megis "i amddiffyn plentyn neu berson bregus arall".* |
| **Oedi i weld gweithwyr gofal iechyd proffesiynol** | O'r 14 unigolyn a gedwir yn y ddalfa a welodd weithwyr gofal iechyd proffesiynol, bu oedi mewn pump achos. A allwch chi gyfiawnhau yr oedi cyn i'r pum unigolyn yn y cofnodion hyn weld gweithiwr gofal iechyd proffesiynol? | *Y rhesymau dros yr oedi ym mhob un o'r pum cofnod y ddalfa oedd y canlynol:*<br>- *Ni ystyriwyd bod angen gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn dilyn yr asesiad risg cychwynnol, ond yna datgelwyd symptomau tebyg i "feddwl pŵl" yn ddiweddarach yn y ddalfa a oedd yn gofyn am adolygiad gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol i sicrhau ei fod yn addas i'w gyfweld.*<br>- *Roedd unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn feddw ac yn ymosodol wrth gyrraedd y ddalfa ac nid oedd yn ddiogel nac yn addas i* |


| | | |
|---|---|---|
| | | *weithiwr gofal iechyd proffesiynol gynnal adolygiad.*<br>- *Ni fu unrhyw oedi cyn i'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa weld y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol gan fod y cynllun gofal cyntaf yn nodi "Mae'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn gweld y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ar hyn o bryd".*<br>- *Gofynnwyd am adolygiad gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ond syrthiodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa i gysgu. Roedd y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn bresennol yn y ddalfa a chafodd gyngor i ganslo'r adolygiad a chyflwyno cais newydd pan fyddai'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn effro. Nid oedd angen brys am adolygiad gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.*<br>- *Roedd angen cyfnod gorffwys ar yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa, ar ôl cyrraedd yn oriau mân y bore, a doedd ond angen i'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol roi meddyginiaeth angenrheidiol yn ddiweddarach y bore hwnnw.* |


# <u>Atodiad- Canfyddiadau’r Adolygiad o Gofnodion y Ddalfa</u>


Mae’r data isod yn amlinellu canlyniadau’r ffurflenni adborth a gwblhawyd gan aelodau’r panel a ddadansoddwyd i nodi’r agweddau cadarnhaol a’r meysydd sydd angen eu gwella ym mhob maes penodol o’r ddalfa gyda ffocws ar yr unigolion bregus a gedwir yn y ddalfa. Mae adran hon yr adroddiad yn ychwanegol i roi cyd-destun i’r adrannau *Crynodeb o’r canfyddiadau* ac *Arsylwadau’r panel* uchod.

## Demograffeg










- Ni ystyriwyd unrhyw blant yn yr hapsamplu hwn o gofnodion y ddalfa.


# Dalfeydd




**Cyfanswm yr amser yn y ddalfa**


- Yr amser cyfartalog y cadwyd carcharor yn y ddalfa oedd 18 awr ac 16 munud.
- Yr amser hiraf y cadwyd unigolyn yn y ddalfa oedd 40 awr a 38 munud.
- Mewn cyferbyniad, yr amser byrraf y cadwyd unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn y ddalfa oedd dwy awr a naw munud.


# Amser cyrraedd y ddalfa




**Yr amser a aeth heibio o gyrraedd i gael awdurdod i'w gadw am gyfnod yn y ddalfa**


- Yr amser ar gyfartaledd a aeth heibio o'r pwynt y cyrhaeddodd unigolyn y ddalfa a chael awdurdod i'w gadw am gyfnod yn y ddalfa oedd 27 munud.
- Yr amser aros uchaf oedd awr a 30 munud.
- Yr amser cyflymaf i unigolyn a gedwir yn y ddalfa gael awdurdod i'w gadw am gyfnod yn y ddalfa oedd dwy funud.









- Gofynnwyd i'r panel benderfynu a oedd angen yr arestio. Dim ond os yw'n bodloni gofynion cyfreithiol penodol o dan adran 24 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol y mae arestio yn gyfreithlon.
- Dyma'r rhestr o anghenion o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol:
  - I ganfod enw neu gyfeiriad person
  - Er mwyn atal niwed corfforol iddynt eu hunain neu i eraill
  - Er mwyn atal colli neu ddifrodi eiddo
  - Er mwyn atal trosedd yn erbyn gweddusrwydd cyhoeddus
  - Er mwyn amddiffyn plentyn neu berson bregus
  - Os oes rhwystr anghyfreithlon i'r briffordd
  - Er mwyn cynnal ymchwiliad prydlon ac effeithiol i'r drosedd
  - Er mwyn atal ymchwiliad i drosedd neu erlyniad yr unigolyn dan amheuaeth rhag cael ei rwystro.
- Gall swyddog ddewis mwy nag un angen ar gyfer arestio rhywun.
- Yr angen amlycaf i arestio a nodwyd oedd cynnal ymchwiliad prydlon ac effeithiol i'r drosedd.

# Darpariaethau yn y ddalfa












- Nododd y panel fod absenoldebau yng nghofnodi anghenion crefyddol, picseleiddio'r toiled a botwm cloch y gell.
- Fodd bynnag, mewn un cofnod, nododd aelod o'r panel fod oedolyn bregus ag awtistiaeth, â gorbryder, â PTSD ac â sensitifrwydd synhwyraidd wedi cael ei drin mewn modd sensitif a darparwyd yr holl ddarpariaethau angenrheidiol ar


# Unigolion benywaidd a gedwir yn y ddalfa











- Nododd y panel fod y cofnod yn aneglur ar ddau achlysur a oedd swyddog benywaidd wedi bod ar gael; ac mewn cofnod arall, nododd aelod o'r panel fod y meysydd ynghylch beichiogrwydd a hylendid wedi'u cofnodi fel 'ddim yn berthnasol'. I weld ymateb yr arolygydd mewn perthynas â hyn, ewch i Sylwadau'r Panel o dan *Unigolion benywaidd a gedwir yn y ddalfa*.

# Hylendid




A yw'r cofnod yn cyfeirio at unrhyw geisiadau hylendid sy'n cael eu gwneud/eu rhoi, er enghraifft, cawodydd a chyfleusterau golchi dwylo yn cael eu cynnig?
1
5
13
Do
Naddo
Amh


# Sgôr rhybudd cynnar yn y ddalfa

Mae sgôr rhybudd cynnar yn y ddalfa wedi'i hychwanegu at broses asesu risg safonol arferol yr heddlu i nodi risg morbidrwydd a marwolaeth unigolyn a gedwir yn y ddalfa. Asesiad a wneir gan staff y ddalfa i asesu anghenion iechyd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yw hwn.



# Hawliau a hawlogaethau





- Rhoddwyd hawliau i bob unigolion a gedwir yn y ddalfa naill ai yn ystod y cyfnod cofnodi i'r ddalfa neu yn ddiweddarach yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa.


**Pa mor hir, ar ôl cael ei gadw yn y ddalfa, y gofynnodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa am gyfreithiwr?**

- Yr amser ar gyfartaledd a gymerodd i unigolyn a gedwir yn y ddalfa ofyn am gyfreithiwr oedd awr a 56 munud.
- Mewn wyth o'r 19 cofnod, gwnaeth y unigolyn a gedwir yn y ddalfa gais am gyfreithiwr o fewn awr a gwrthododd dau y cynnig am gyfreithiwr.
- Y cyfnod hiraf cyn i unigolyn a gedwir yn y ddalfa ofyn am gyfreithiwr oedd chwech awr a 30 munud.

**Yr amser a gymerodd i'r heddlu gysylltu â chyfreithiwr**


- Yr amser ar gyfartaledd a gymerodd i'r heddlu gysylltu â chyfreithiwr ar ddyletswydd oedd dwy awr a 33 munud.
- Y cyfnod hiraf oedd wyth awr.
- Y cyfnod byrraf oedd dwy funud.





**Yr amser a gymerodd i gyfreithiwr gyrraedd o'r pwynt cysylltu**

- Yr amser ar gyfartaledd a gymerodd i gyfreithiwr gyrraedd ar ôl cael cais oedd saith awr a 19 munud.
- Nododd y panel ar bum achlysur nad oedd unrhyw gofnod neu ei bod yn anodd canfod manylion ynghylch cyswllt cyfreithiwr.
- Gwnaeth y panel y sylwadau canlynol ar yr anawsterau wrth asesu cyfranogiad cyfreithiwr o fewn cofnod y ddalfa:
  1) *"Ymddengys y cysylltwyd â chyfreithwyr, ond nid yw'n glir a oedd unrhyw gyfreithiwr yn bresennol yn y cyfweliad ai peidio."*
  2) *"Mae'r cofnod yn ddryslyd gan, er i'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa ofyn am gyfreithiwr am 1.54pm, na wnaed unrhyw gyswllt tan 10.37pm pan oedd yr oedolyn priodol yn bresennol".*
  3) *"Nid yw'n bosibl canfod a oedd y sgwrs rhwng yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa a'r cyfreithiwr wyneb yn wyneb neu dros y ffôn."*




- Gofynnwyd i'r panel nodi'r dull gwaredu i asesu a oeddent yn briodol ai peidio:
- roedd 47% o'r dulliau gwaredu ar gyfer mechnïaeth amodol sef y broses sy'n caniatáu i swyddogion atodi amodau i fechnïaeth a all gefnogi dioddefwyr a/neu dystion, darparu tystiolaeth a lliniaru troseddau pellach.
- O'r tri chofnod gyda'r dull gwaredu yn nodi dim gweithredu pellach, yr angenrheidrwydd arestio a bennwyd ar gyfer pob un ohonynt oedd *Cynnal ymchwiliad prydlon ac effeithiol i'r drosedd*. Ar gyfer dau gofnod arall, roedd un wedi'i amlygu i *Amddiffyn plentyn neu oedolyn arall sy'n fregus* a'r llall oedd *Atal person rhag achosi colled neu ddifrod i eiddo*.

## Lefel arsylwi






- Bernir lefel y risg ar bedair lefel.
- Lefel 1 Cyffredinol (o leiaf unwaith yr awr)
- Lefel 2 Ysbeidiol (bob 30 munud)
- Lefel 3 Cyson (arsylwi cyson ar deledu cylch cyfyng ac yn hygyrch bob amser)
- Lefel 4 Yn gorfforol agos (dan oruchwyliaeth gorfforol agos).


- Cofnododd y panel gadarnhad o 95% bod risgiau unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi'u hystyried a dim ond mewn un cofnod ni allai aelod y panel ddod o hyd i'r manylion.




- Nododd un aelod o'r panel nad oedd y lefel arsylwi 2 wedi'i ddilyn.
- Nododd aelod arall o'r panel nad oedd yn berthnasol gan na allent weld manylion ar unrhyw lefel arsylwi i ddechrau.
- Gwnaeth y panel y sylwadau canlynol mewn perthynas â'r lefelau arsylwi:
  1) Newidiodd lefelau arsylwi o Lefel 1 i 2 i 4 ac yn ôl i 1 ar gyngor y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.
  2) Cafodd unigolyn a gedwir yn y ddalfa, a oedd ag anafiadau i'r pen a marcwyr ar gyfer problemau iechyd meddwl a syniadau hunanladdol blaenorol, ei osod ar Lefel 1 i ddechrau tan tua awr yn ddiweddarach pan gafodd hyn ei ddiwygio i Lefel 4 heb ddarparu unrhyw resymeg glir.
  3) Gan mai dim ond am ddwy awr a 9 munud y cadwyd yr unigolyn yn y ddalfa, nid oedd unrhyw fanylion ar gyfer ei ddeffro.



A gadwyd at y lefel arsylwi?
2
1
16
Oedd
Nac Oedd
Amh


A oedd yr unigolyn yn y ddalfa angen cael ei ddeffro’n gyson?
2
1
5
11
Oedd
Nac oedd
Amh
Ni ddaethpwyd o hyd I fanylion



A lynwyd at hyn?
8
8
3
Do
Naddo
Ni ddaethpwyd o hyd I fanylion

# Gwasanaethau cynorthwyol

A gafodd yr unigryw fynediad/cynnig/cyfeirio at unrhyw wasanaethau cymorth tra bu yn y ddalfa?





A oes unrhyw dystiolaeth o gyswllt â gwasanaethau cymorth/Tîm Iechyd Meddwl/neu reswm a ddarparwyd dros beidio â...





- Cynigiwyd gwasanaethau cynorthwyol i 53% o unigolion a gedwir yn y ddalfa o'i gymharu â 37% na chafodd gynnig gwasanaethau cynorthwyol a 10% nad oedd hyn yn berthnasol iddynt.

- Pwysleisiodd aelodau'r panel y gwasanaethau cynorthwyol canlynol i gefnogi unigolion a gedwir yn y ddalfa:
  1) Gwasanaethau iechyd meddwl
  2) Kaleidoscope
  3) Meddyg teulu
  4) Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol

# Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol








- Nododd y panel y sylwadau canlynol mewn perthynas â darpariaeth gweithwyr gofal iechyd proffesiynol:
  1) Atgyfeiriodd gweithiwr proffesiynol y ddalfa a gweithiwr proffesiynol gofal at y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn briodol.
  2) Nododd staff y ddalfa fod gan yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa hanes o anawsterau iechyd meddwl ac anawsterau dysgu.
  3) Mae'n arfer da bod y cofnod yn dangos dealltwriaeth bod oedolyn priodol wedi cael ei ystyried yn angenrheidiol o'r blaen, felly ymddengys bod sylw ychwanegol wedi'i roi i'r gofyniad ar yr achlysur hwn.
  4) Mae pryderon iechyd meddwl wedi cael eu cydnabod tra roedd yr unigolyn yn y ddalfa a cheisiwyd asesiadau gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. Cysylltwyd ag oedolyn priodol ac fe fynychodd mewn pryd ar gyfer y cyfweliad.

## Dillad risg arbennig/dillad gwrth-rwygo

- O'r 19 o gofnodion y ddalfa a adolygwyd, ni ddarparwyd dillad risg arbennig i unrhyw unigolyn yn y ddalfa ac ni wnaeth yr heddlu dynnu dillad drwy rym.

## Noeth-chwiliad




- Nododd un aelod o'r panel nad oedd rhesymeg dda dros gynnal noeth-chwiliad. Y rhesymeg a ddarparwyd oedd bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi cael ei arestio ar amheuaeth o gyflenwi cyffuriau. Roedd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa eisoes wedi bod i'r ysbyty ac wedi cael sgan rhag ofn iddo lyncu unrhyw eitem, ac roedd symudiadau'r perfedd yn cael eu monitro drwy'r toiled gwydr; felly, nid yw'n glir pam roedd angen noeth-chwiliad.
- Nid oedd oedolyn priodol yn bresennol ar gyfer unrhyw un o'r noeth-chwiliadau a gynhaliwyd.




Nododd y panel y rhesymau canlynol pam yr ystyriwyd bod yr unigolion a gedwir yn y ddalfa hyn yn fregus:

- Mae’r unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn dioddef o ddementia cynnar.
- Problemau iechyd meddwl gan gynnwys iselder, gorbryder, ADHD.
- Analluu i ddarllen neu ysgrifennu.
- Mae’r unigolyn a gedwir yn y ddalfa â gallu meddyliol plentyn chwech oed.
- Mae gan yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa anawsterau dysgu.
- Hanes o hunan-niweidio.

Roedd cofnodion lle na allai'r panel benderfynu pam yr ystyriwyd bod y unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn fregus.


O'r cofnodion hynny a nododd fregusrwydd:

- Materion iechyd meddwl 31%
- Niwroamrywiaeth 15%
- Analluu i ddarllen neu ysgrifennu 21%
- Anawsterau dysgu 21%

O'r 12% sy'n weddill, roedd hyn yn cynnwys risg o hunan-niweidio a dementia cynnar a dau gofnod yn nodi nad oedd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn fregus.


# Iechyd meddwl, oedolion priodol a bregusrwydd eraill

A nododd yr heddlu fod angen oedolyn priodol?





- Yr amser ar gyfartaledd i swyddog y ddalfa gysylltu ag oedolyn priodol oedd saith awr ac 30 munud, a'r amser ar gyfartaledd i'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa gysylltu ag oedolyn priodol am y tro cyntaf oedd wyth awr a 10 munud.
- Y cyfnod hiraf oedd 19 awr ac mewn cyferbyniad, y cyfnod byrraf oedd pedair munud.
- Nododd y panel na ddarparwyd oedolyn priodol ar un achlysur oherwydd ei bod yn ymddangos bod gan yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa y gallu; fodd bynnag, roedd angen oedolyn priodol arno ar achlysur blaenorol yn y ddalfa.
- Roedd gan y panel y sylwadau canlynol ar oedolyn priodol:
- Ni ddarparwyd esboniad pam y cysylltwyd ag oedolyn priodol 11 awr i ar ôdechrau'r cyfnod yn y ddalfa i fynd i'r cyfweliad.

A oedd unrhyw reswm pam na ddarparwyd oedolyn priodol?




A gysylltwyd â'r unigolyn enwebedig/oedolyn priodol?




## Plant yn y ddalfa

Ni ddewiswyd unrhyw blant neu bobl ifanc a gedwir yn y ddalfa fel rhan o'r sampl hapsamplu o'r unigolion bregus a gedwir yn y ddalfa.

## Coch Melyn Gwyrdd

Ar ddiwedd pob cofnod y ddalfa a adolygwyd, gofynnwyd i'r panel adolygu'r meini prawf isod ac asesu eu graddfa gyffredinol o gofnod y ddalfa gan ddefnyddio'r sgôr Coch Melyn Gwyrdd:

| Enghreifftiau o reswm dros raddio | Camau gweithredu dilynol |
|---|---|
| **Rhesymeg lawn wedi'i rhoi dros ddefnyddio grym, noeth-chwiliad neu ar gyfer unrhyw oedi gan asiantaethau allanol sy'n cefnogi'r sawl a gedwir yn y ddalfa mewn modd cyfiawn a chymesur.** | **Nid oes angen unrhyw gamau pellach ar hyn o bryd.** |
| **Mae pob hawl a hawlogaeth wedi'u rhoi i'r sawl a gedwir yn y ddalfa.** | |
| **Defnyddiwyd dulliau dad-waethygu clir, eitemau tynnu sylw ac ati i liniaru risg yr unigolyn a gedwir yn gaeth rhag hunan-niweidio bwriadol.** | |
| **Cyfiawnhad prin neu aneglur dros ddefnyddio'r dillad gwrth-niwed, defnyddio grym neu noeth-chwiliad.** | **Cyngor/hyfforddiant pellach i staff y ddalfa.** |
| **Dim digon o wybodaeth i benderfynu ar unrhyw oedi cyn i'r sawl a gedwir yn y ddalfa dderbyn ei hawliau i gael cynrychiolaeth gyfreithiol neu oedolyn priodol.** | |
| **Cofnodi hawliau a hawlogaethau mewn modd anghyson.** | |
| **Nid oes unrhyw resymeg neu nid yw cyfiawnhad yn gymesur.** | **Mae angen archwiliad pellach mewn perthynas â diffyg rhesymeg. Achosion i'w codi gydag arolygydd y ddalfa.** |
| **Penderfyniadau wedi'u gwneud heb wybodaeth am risg a heb unrhyw resymeg arall.** | |
| **Oedi sylweddol wrth i'r sawl a gedwir yn y ddalfa weld gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, defnyddio gwasanaethau cyfreithiol neu oedolyn priodol.** | |
| **Dim ystyriaeth amlwg i fregusrwydd y sawl a gedwir yn y ddalfa.** | |




Y rhesymeg a neilltuwyd i bob gradd lliw oedd asesiad/barn aelodau unigol y panel o gofnod y ddalfa y cawsant eu neilltuo iddo. Isod mae peth o'r rhesymeg a ddarparwyd gan y panel ar gyfer eu graddio:

| Gwyrdd | Melyn | Coch |
|---|---|---|
| *"Popeth yn dda iawn - yr unig hepgoriad yw sôn ar y cofnod bod yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi cael gwybod am gloch y gell neu'r toiled picseledig."* | *"Oedi yn yr amser wrth gysylltu â'r oedolyn priodol, dim rheswm wedi'i roi."* | *"Gosodwyd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn 'Cell C18 toiled adfer cyffuriau' sy'n awgrymu lefel ychwanegol o fregusrwydd ond nid oes unrhyw dystiolaeth yn yr asesiad risg. Yn yr un modd, mae'r cofnod yn nodi nad oes unrhyw anghenion iechyd meddwl a chofnodwyd nad oedd angen oedolyn priodol. Ac eto ar ôl 11 awr yn y ddalfa, cysylltir ag oedolyn priodol ac mae'n mynychu cyfweliad - heb unrhyw esboniad pam ar y cofnod"* |
| *"Unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi cael ei drin yn dda ac yn unol â Chod C"* | *"Cadarnhaol: cyswllt dro ar ôl tro â'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol i sicrhau llesiant corfforol yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa hwn.<br>Negyddol: cafodd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa hwn ei arestio am 8.16am - ei gludo i'r ysbyty am sgan, yna i ddalfa* | *"Mae diffyg gwybodaeth ar y cofnod i benderfynu ar y rhesymeg dros noeth-chwiliad, pam y nodwyd fod angen oedolyn priodol ond na chysylltwyd ag ef tan lawer yn ddiweddarach, dim cofnod o gysylltu â chyfreithiwr a'r hyn sy'n* |

| | | |
|---|---|---|
| | *Hwlffordd lle awdurdodwyd ei gadw yn y ddalfa am 1.57pm ar 11 Ionawr 2025. Cymerodd tan yr adolygiad chwe awr gan yr arolygydd i gynnig bwyd a diod i'r carcharor hwn. Wedi hynny, cynigiwyd lluniaeth iddo yn rheolaidd, a gwrthododd ar adegau; derbyniodd y cynnig am 12.14am ar 12 Ionawr 2025."* | *ymddangos fel cofnod sy'n ymwneud ag achos arall ar y ffeil"* |
| *"Troseddau lluosog a gyflawnwyd gan ddioddefwr iechyd meddwl NA ddylai fod wedi bod yn faes cyfrifoldeb y gwasanaeth heddlu ond yn hytrach yr awdurdodau iechyd meddwl priodol."* | *"Yr unig bryder gwirioneddol yw dyraniad cychwynnol arsylwadau Lefel 1 (yn rhy isel, yn ôl pob tebyg) - a'r newid sydyn i Lefel 4 heb unrhyw resymeg glir"* | |
| *"Wedi'i gadw am yr amser gofynnol yna'i drosglwyddo i'r tîm argyfwng"* | *"Ymddengys nad oedd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa wedi cael cynnig digon o fwyd na diod priodol. Dim ond un pot o nwdls a dŵr a roddwyd mewn dros 17 awr yn y ddalfa. Hefyd gwybodaeth yn groes i'w gilydd ynghylch y penderfyniad ynghylch a oedd angen oedolyn priodol ar y unigolyn a gedwir yn y ddalfa."* | |